

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR**  
**CYD-BWYLLGOR AMLOSGFA LLANGRALLO**  
**HARBWR PORTHCAWL**

**ARCHWILIO CYFRIFON Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR**  
**31 MAWRTH 2021**

Hysbysir drwy hyn, yn unolag adran 30 a 31 or Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac Adran 12 Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, y bydd:

1. Unrhyw berson sydd â diddordeb, rhwng 14 Mehefin 2021 a 09 Gorffennaf 2021, gan gynnwys y ddau ddiwrnod yma, rhwng 9:00 a.m. ac 1:00 p.m. a rhwng 2:15 p.m. a 4:00 p.m. o ddydd Llun i ddydd Gwener, drwy gais i'r Adran Gyllid, Raven's Court, Lôn y Bragdy, Pen-y-bont ar Ogwr, yn gallu archwilio a gwneud copïau o'r cyfrifon uchod am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021, a'r holl lyfrau, gweithredoedd, contractau, biliau, talebau a derbynebau cysylltiedig.
2. Ar 12 Gorffennaf 2021 neu wedi hynny hyd nes y bydd yr archwiliad wedi ei gwblhau, ar gais unrhyw Etholwr ar gyfer yr ardal y mae'r cyfrifon 2020-21 yn berthnasol iddi, bydd Mr Derwyn Owen yn rhoi cyfle i'r Etholwr neu ei gynrychiolydd ei holi ef ynglŷn â'r cyfrifon a chaiff unrhyw Etholwr o'r fath neu ei gynrychiolydd ddod gerbron yr Archwilydd a gwrthwynebu unrhyw rai o'r cyfrifon. Ni ellir mynegi unrhyw wrthwynebiad oni bai bod yr Archwilydd wedi derbyn hysbysiad ysgrifenedig ymlaen llaw am y gwrthwynebiad arfaethedig a'r sail ar yr hon y mae i gael ei wneud. Rhaid anfon yr hysbysiad ysgrifenedig hwn at Mr Derwyn Owen ([derwyn.owen@audit.wales](mailto:derwyn.owen@audit.wales)), yn 24 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF11 9LJ a rhaid anfon copi ohono i'r Cyngor yn y cyfeiriad isod.

Gill Lewis CPFA  
Pennaeth Cyllid a Thrysorydd Dros Dro  
Raven's Court  
Lôn y Bragdy  
Pen-y-bont ar Ogwr  
CF31 4AP

Dyddiedig 27 Mai 2021